Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 22/02/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cynghorwyr W.L.Davies, E.R.Hughes (Cadeirydd), A.Hopcyn, D.L.Jones, K.Jones, E.Lovgreen, R.Thomas

---

1.Ymddiheuriadau

Y Cynghorydd M.Sarnacki

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Tendr Goleuadau Nadolig

Cafwyd trafodaeth ar fynd allan am dendr am y goleuadau Nadolig.

Nodwyd fod Blachere, y darparwyr presennol, wedi cynnig blwyddyn arall, fel cynllun wrth gefn.

Penderfynwyd:

(1) Rhoi awdurdod i'r Clerc fynd allan i dendr, gan ymgorffori'r pwyntiau a wnaethpwyd yng nghofnodion y Pwyllgor Adloniant ar y 12fed o Ionawr, 2021.
(2) Y dylid edrych ar gael coeden Nadolig ar dop Stryd Llyn a / neu ar Turf Square.
(3) Y dylid ymgynghori efo'r cyhoedd o ran beth oedd eu dyheadau o ran y goleuadau Nadolig yn y dref.
(4) Ystyried un ai cael un tendr mawr fyddai yn ymdrin â phopeth, neu o bosib y bydd yn rhaid cael un neu ddau o dendrau llai.

5. Gŵyl Dewi

Cafwyd trafodaeth ar y trefniadau Gŵyl Ddewi eleni, gan y byddai'n amhosib i'r trefniadau arferol gymryd lle oherwydd Covid-19.

Nodwyd:

(1) Bod penderfyniadau'r pwyllgor hwn ar y 12fed o Ionawr wedi eu gweithredu, hynny yw:

- Peidio â chynnal yr Orymdaith Gŵyl Dewi eleni oherwydd Covid.

- Cynnal cystadleuaeth ysgrifennu cerdd i ysgolion ar y thema "Caernarfon Heddiw" ac i ofyn i'r bardd Rhys Iorwerth feirniadu.

(2) Erbyn hyn roedd y plant wedi ffilmio eu cerddi buddugol, yn barod i fynd ar ein gwefan ac ar y safle Facebook erbyn dydd Gŵyl Dewi.
(3) Bod medal a £10 i'r buddugwyr.

Penderfynwyd:
(1) Ysgrifennu llythyr o ddiolch i Rhys Iorwerth, ac argymell ei fod yn derbyn tâl fydd yn cyfateb i feirniad y Gystadleuaeth Garddio.
(2) Rhannu'r wybodaeth am yr enillwyr yn Papur Dre ac yn Bro360.

6. Blodau ar y Maes

Cafwyd trafodaeth ar yr uchod, gan ystyried y ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys y defnydd o wirfoddolwyr.

Nodwyd y byddai blodau fel Trailing Begonias yn ddelfrydol.

Penderfynwyd:
(1) Creu dyddiadur o ran beth fydd angen digwydd pa bryd o ran plannu blodau ar y Maes.
(2) Gofyn am gwot gan gwmnïau fyddai'n gallu plannu blodau yn y planters ar y Maes, a hefyd gofalu amdanyn nhw yn wedyn (dyfrio a bwydo).
(3) Gofyn i'r Clerc holi Cynghorau Tref gyfagos, fel Biwmares, pwy oedd yn gyfrifol am eu blodau hwy.

7. Cystadleuaeth Gerddi

Cafwyd trafodaeth ar yr uchod, yn cynnwys os fyddai modd cael cystadleuaeth ar gyfer ysgolion.

Nodwyd nad oedd pobl yn gwneud cais i gymryd rhan wedi bod yn hollol lwyddiannus. Byddai'n rhaid llythyru gyda bob cartref yng Nghaernarfon er mwyn cael y neges allan.

Darllenodd y Clerc e-bost gan y Cynghorydd Maria Sarnacki, oedd yn amlinellu amryw o opsiynau.

Penderfynwyd:
(1) Argymell y dylai'r gystadleuaeth gymryd lle ddiwedd Mehefin / dechrau Gorffennaf, ond y dylid holi Mr Alun Roberts o ran pa amser yn y flwyddyn fyddai'n ddelfrydol o ran gweld y blodau ar eu gorau.
(2) Gofyn i'r Clerc gyflwyno papur gerbron y pwyllgor hwn yn ei gyfarfod nesaf, yn amlinellu'r opsiynau o ran y cwpanau ac yn y blaen.
(3) Gofyn i'r Clerc drafod efo ysgolion pa mor ymarferol fyddai i ysgolion gymryd rhan eleni yng nghanol Covid-19.

(4) Gofyn i'r Cwmni fyddai wedi ennill y contract o ran y blodau ar y Maes i feirniadu'r Gystadleuaeth Gerddi hefyd.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.50 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____